# Cytundeb Defnydd Derbyniol Rhieni/Gofalwyr a ffurflenni caniatâd

Mae technolegau digidol wedi dod yn rhan anhepgor o fywydau plant a phobl ifanc, yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Mae'r technolegau hyn yn darparu arfau grymus sy'n cynnig cyfleoedd newydd i bawb. Gallant ysgogi trafodaeth, hyrwyddo creadigrwydd ac ysgogi ymwybyddiaeth o gyd-destun i hyrwyddo dysgu effeithiol. Dylai pobl ifanc gael mynediad diogel i'r rhyngrwyd bob amser.

### Diben y polisi defnydd derbyniol hwn yw sicrhau:

- bod pobl ifanc yn ddefnyddwyr cyfrifol ac yn aros yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a thechnolegau cyfathrebu eraill ar gyfer defnydd addysgol, personol a hamdden
- bod systemau'r ysgol a'r defnyddwyr yn cael eu hamddiffyn rhag camddefnydd damweiniol neu fwriadol a allai beryglu diogelwch y systemau a'r defnyddwyr
- bod rhieni a gofalwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch ar-lein ac yn helpu i addysgu ac arwain pobl ifanc yn eu hymddygiad ar-lein.

Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad da at dechnolegau digidol er mwyn gwella'r addysgu. Byddant felly'n disgwyl i'r dysgwyr gytuno i fod yn ddefnyddwyr cyfrifol. Mae croeso i chi ofyn am gopi o gytundeb defnydd derbyniol dysgwyr o'r ysgol, fel eich bod chi fel rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r hyn y mae'r ysgol yn ei ddisgwyl gan y dysgwyr yn eu gofal.

Gofynnir i rieni lofnodi'r ffurflen flynyddol a anfonir allan ar bapur i ddangos eu cefnogaeth i'r ysgol yn yr agwedd bwysig hon o waith yr ysgol.

© SWGfL 2025

## Blynyddoedd 3 i 6

*Rwy’n gwybod bod fy mhlentyn wedi llofnodi cytundeb defnydd derbyniol ac wedi derbyn, neu am dderbyn, addysg diogelwch ar-lein i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o dechnoleg a'r rhyngrwyd - yn yr ysgol a’r tu allan i'r ysgol.*

## Blwyddyn 2 ac Iau

Rwy’n deall bod yr ysgol wedi trafod y cytundeb defnydd derbyniol gyda'm plentyn a'u bod wedi derbyn, neu am dderbyn, addysg diogelwch ar-lein i'w helpu i ddeall pwysigrwydd defnydd diogel o dechnoleg a'r rhyngrwyd - yn yr ysgol a’r tu allan i'r ysgol.

Rwy’n deall y bydd yr ysgol yn cymryd pob rhagofal diogelwch rhesymol, gan gynnwys systemau monitro a hidlo, i sicrhau bod pobl ifanc yn ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r systemau. Rwyf hefyd yn deall nad yw'r ysgol yn gallu cael eu dal yn gyfrifol yn y pen draw am natur a chynnwys unrhyw ddeunydd sy’n cael ei weld ar y rhyngrwyd ac wrth ddefnyddio technolegau symudol.

Rwy’n deall y bydd gweithgareddau fy mhlentyn ar y systemau yn cael eu monitro a bydd yr ysgol yn cysylltu os oes unrhyw bryderon o ran mynd yn erbyn y cytundeb defnydd derbyniol.

Byddaf yn annog fy mhlentyn i fabwysiadu defnydd diogel o'r rhyngrwyd a thechnolegau digidol gartref a byddaf yn hysbysu'r ysgol os oes gennyf unrhyw bryderon am ddiogelwch ar-lein fy mhlentyn.

© SWGfL 2025